Sul y Blodau, 2019

Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma. Y Parchg. Aled Edwards fydd yn arwain y myfyrdod, a Nia Williams fydd yn llywyddu. Eleri Huws sy'n cyfeilio.

Yr Wythnosau Nesaf

Ebrill 21ain Sul y Pasg– Sul Teuluol gyda Heulyn a Catrin gyda Siân yn cyfeilio

Ebrill 28ain - Geraint a Caroline Rees gyda Bethan yn cyfeilio

Mai 5ed Sul Pentrefi Creigiau a Groesfaen

Mai 12ed Sul Cymorth Cristnogol: Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol

Mai 19eg Sul Teuluol gyda Lyn a Mike West a Gwilym a Beti

Mai 26 Gethin Rhys, gyda Keith Rowlands yn llywyddu

Mehefin 2il Sul Pentrefi Llantrisant,Llanharan a Meisgyn

Mehefin 9ed Aled Edwards gyda Gwerfyl Morse yn llywyddu

Llongyfarchiadau gwresog i Amanda a Gwion Evans ar enedigaeth Siôn Ceredig, brawd bach i Dafydd Teifi.

NOSON CYRI GYDA'R TWMIAID

Diolch i'r Twmiaid a Heulyn a Catrin am drefnu noson allan nos Iau yn Indiaah, ac i aelodau'r gynulleidfa oedd yno i'w cefnogi. Codwyd £317 tuag at Achub y Plant. Llongyfarchiadau.

CASGLIADAU DILLAD A NWYDDAU

Mae'r casgliadau ar gyfer Adref, Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn weithredol eleni. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau cyson i'r elusennau allweddol yma. Maen nhw'n hynod werthfawrogol o'n cefnogaeth.

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:
carolinerees2@hotmail.com
neu decstio Caroline ar
07539452130

ELUSENNAU 2019
Dyma'r elusennau y byddwn yn eu cefnogi drwy gasgliad yr amlenni brown eleni:
Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf
Adref, Ysgol Tŷ Coch
Cymorth i Ferched Cymru & CRICA
Mae pedair o'r rhain yn lleol ac yn gwerthfawrogi ein cefnogaeth gyson. Mae CRICA yn ymchwilio i Glefyd Crohn ac yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef o'r cyflwr.

Y Rhestrau: Blodau a Croesawu

Mae nifer o Suliau heb flodau a chroesawyr ar y rhestrau sydd wrth ddrws y Capel. Mae gwahoddiad cynnes i chi dorri eich henw. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi gwneud yn barod.

CYLCH CADWGAN

Nos Wener 26 Ebrill 2019 am 8.00pm
IOAN KIDD
yn siarad ar y testun
'Cysgodion Cam'
yn Festri Bethlehem, Gwaelod y Garth

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL: 'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu.

Merched y Wawr Tonysguboriau

Gwahoddiad agored i'r Tabernacl ar Fai 22ain i glywed Gwenno Rees yn son am ei blwyddyn ym Mhatagonia. Croeso i bawb.